



Ein cyf/Our ref: MA/RE/0094/22

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Ionawr 2022

BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr diweddar yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyllid ar 22 Rhagfyr 2021 mewn perthynas â Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) ("y Bil") lle'r ydych yn gofyn am wybodaeth am y canlynol:

- Y costau posibl sydd ynghlwm â gweithredu unrhyw is-ddeddfwriaeth a fydd yn codi yn sgil y Bil, megis diweddarau systemau, ffurflenni, canllawiau a chyfathrebu unrhyw newidiadau;
- Y costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â gweithredu Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020.

Fel y gwyddoch, nod y ddeddfwriaeth hon yw darparu system i alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i ddigwyddiadau allanol, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar gyllideb Cymru – amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Heb y ddeddfwriaeth hon, byddai angen inni ganfod ffordd o ymateb o hyd. Yn y rhan fwyaf o senarios, byddai hyn yn debygol o olygu ymateb gan ddefnyddio deddfwriaeth frys neu, lle bo'n bosibl, ein pwerau gwneud rheoliadau presennol. Byddai'r costau gweithredu'r un fath ni waeth pa system ddeddfwriaethol a ddefnyddid i weithredu'r newid hwnnw. Yr opsiwn arall fyddai byw gydag effaith y digwyddiad allanol, gan gynnwys gostyngiadau posibl yng nghyllidebau Cymru. Prif nod y ddeddfwriaeth hon yw diogelu refeniw Cymru.

Heb y Bil hwn, mae perygl y byddwn yn wynebu costau ariannol yn y dyfodol os, er enghraifft, codir tâl newydd am dreth dir y dreth stamp ac ni allwn ymateb yn gyflym. Er,

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

efallai na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos, mae'n sicr yn bosibl yn y blynyddoedd nesaf – gan fod trethi trafodiadau tir yn parhau i fod yn fywiog.

Mae swyddogion Trysorlys Cymru, ar y cyd â swyddogion o Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), wedi ystyried costau gweinyddol posibl unrhyw newidiadau yn y dyfodol – sy'n cynnwys, er enghraifft, diweddarau canllawiau a ffurflenni, profi neu ofynion cyfathrebu ychwanegol. Ar gyfer y rhan fwyaf o newidiadau, mae'n rhesymol tybio y bydd y costau yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Fodd bynnag, bydd y costau i ACC yn dibynnu i raddau helaeth ar union natur y newid na ellir ei ragweld heddiw gydag unrhyw sicrwydd, a bydd angen ystyried y costau hyn fesul achos.

O ran gweithredu Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020, ysgwyddodd ACC gostau o oddeutu £1,200 ar weithredu'r newidiadau dros dro yng nghyfradd y dreth trafodiadau tir ar 27 Gorffennaf 2020. Roedd hyn yn cynnwys ffi fechan a dalwyd i'w cyflenwr TG, fodd bynnag, gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r newidiadau technegol, gan gynnwys profi, yn fewnol. Nid yw'r gost hon yn cynnwys cost isel dychwelyd at y cyfraddau gwreiddiol ar gyfer y dreth trafodiadau tir (a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2021) na chost amser staff ar ddiweddarau canllawiau a chyfathrebiadau ACC. Cafodd y costau hyn eu cynnwys yng ngweithgareddau busnes fel arfer. Rhagwelwyd y newidiadau yn eang yn dilyn fy nghyhoeddiad ar 14 Gorffennaf 2020 ac felly roedd y gofynion a'r costau o ran codi ymwybyddiaeth yn isel.

Rhagwelwyd y gofyniad i wneud newidiadau i gyfraddau'r dreth wrth ddylunio system rheoli treth ACC, ac adeiladwyd systemau ymarferol sy'n golygu bod gwneud newidiadau o'r fath yn weddol hawdd. Helpodd hyn i gadw'r costau'n isel ar gyfer newidiadau Gorffennaf 2020.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r Pwyllgor Cyllid yn ei waith o graffu ar y Bil, ond os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnoch cyn imi ddod ger eich bron unwaith eto, mae croeso i chi ysgrifennu ataf.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Copi at: Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad